# COW

# Taflen Gweithgaredd 2b

**Adroddiad Damwain**

Y Ddamwain!

Roedd hi'n 3.30pm ym mis Rhagfyr, yn dechrau tywyllu ac roedd y ffyrdd yn wlyb ac yn llithrig. Roedd Mark yn teithio adref o'r ysgol ar ei feic. Nid oedd gan Mark olau ar ei feic ac nid oedd yn gwisgo dillad fflwroleuol na helmed. Roedd tua deg munud o'i gartref mewn parth 30mya pan gafodd ei daro oddi ar ei feic gan gar. Roedd wedi ei anafu'n ddrwg a bu'n rhaid mynd ag ef i'r ysbyty lleol.

Roedd tyst i'r ddamwain yn meddwl bod y gyrrwr yn defnyddio ffôn symudol ac yn teithio ar yr un cyflymder â gweddill y traffig. Roedd y gyrrwr yn meddwl ei fod yn teithio ar gyflymder o tua 35mya a dywedodd ei fod newydd ateb neges testun bwysig ynglŷn â'i waith. Esboniodd na welodd y beiciwr a gwadu ei fod yn gyrru'n beryglus.

Trafodwch y cwestiynau canlynol:

- ***Beth yw prif ffeithiau'r achos?***
- ***Pwy sydd ar fai? Ai mwy nag un person?***
- ***A ddylai rhywun gael ei gyhuddo â throsedd?***
- ***Os felly, pa gyhuddiad?***

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

**Mae rhai materion/ffeithiau cyfreithiol y mae angen i chi eu hystyried cyn ateb y cwestiynau:**

a) Mae'n drosedd i yrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder

b) Mae'n drosedd i beidio â chael golau ar feic pan fydd gwelededd yn wael

c) Mae'n drosedd i ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru

d) Nid oes cyfraith yn y wlad hon ynglŷn â defnyddio helmedi

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent